ENGHRAIFFT O GYTUNDEB

Gosod ystafell mewn eiddo wedi ei ddodrefnu

Yr eiddo:	(Cyfeiriad)
Yr ystafell:	sy'n golygu'r ystafell yn yr eiddo sydd wedi ei gytuno rhwng y Tenant a'r Lletywr / Is-denant sydd i gael ei gymryd gan y Lletywr / Is-denant.
Y Tenant:	(Enw)
Lletywr / Is-denant	(Enw)
Cyfnod:	**----------(**o wythnosau/misoedd) gan gychwyn ar y ----/----/----------
Ardaloedd sy'n cael eu rhannu:	sy'n cyfeirio at yr ystafelloedd yn yr Eiddo lle mae'r Tenant wedi cytuno a ellir eu defnyddio gan y Lletywr / Is-denant yn seiliedig ar rannu gyda'r Tenant ac unrhyw berson arall sy'n byw yn yr Eiddo, gan gynnwys _____ _____
Bod ag o i ben yn gynnar:	Drwy gytuno ar y cyd, gall unrhyw barti ddod a'r cytundeb hwn i ben yn gynt nag ar ddiwedd y cyfnod drwy roi rhybudd ysgrifenedig i'r llall o ---------- wythnosau/misoedd
Taliad:	Y rhent fydd £ ------- yr wythnos/mis sy'n daladwy ar y dydd Llun cyntaf o bob mis neu ddydd Llun bob wythnos
Y blaendal:	Y blaendal yw £----------, a fydd yn cael ei ad-dalu ar ddiwedd y cytundeb ar ôl gwneud y gostyngiadau cymwys.
Rhestr Eiddo:	Yw'r rhestr o eiddo'r Tenant lle mae'r Lletywr / Is-denant wedi cael yr hawl i'w ddefnyddio yn yr eiddo gan gynnwys yn yr Ystafell

Nid yw'r Cytundeb hwn yn rhoi unrhyw hawl meddiannu ar y Lletywr / Is-denant sy'n disodli cytundeb Tenantiaeth y Tenant gyda (enw a chyfeiriad y landlord)

Telerau ac Amodau

Cytundeb personol yw hwn i'r Lletywr / Is-denant ac nid oes modd ei aseinio. Mi fydd yn dod i ben yn awtomatig heb unrhyw rybudd os yw'r Lletywr / Is-denant yn peidio â byw yn yr eiddo neu os nad yw'n talu dau neu fwy o'r taliadau sy'n ddyledus.

Goblygiadau'r Lletywr / Is-denant

1.1	I dalu'r arian sy'n ddyledus (y Taliad) i'r tenant yn unol â'r hyn sydd wedi ei nodi yn y Cytundeb.

1.2	I gadw tu mewn i'r ystafell a'r ystafelloedd sydd i'w rhannu mewn cyflwr da a glân a pheidio ag achosi unrhyw ddifrod i unrhyw ran o'r Ystafell neu Eiddo.
1.3	Peidio â gwneud unrhyw newidiadau i'r Ystafell neu Eiddo heb ganiatâd y Tenant.
1.4	Dim ond defnyddio cyfleusterau'r ardaloedd sydd i'w rhannu yn yr eiddo yn unol â daliadaeth yr Ystafell.
1.5	Cadw pob eitem a restrir yn y rhestr yn yr Ystafell a'u cadw mewn cyflwr da.
1.6	Peidio cadw anifail anwes heb ganiatâd y tenant a dylai gyd fynd â Chytundeb Tenantiaid a pholisi *(Cartrefi Cymunedol Gwynedd)*
1.7	Peidio achosi neu ganiatáu unrhyw ymddygiad a all fod yn niwsans i gymdogion; na chymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n droseddol neu a all niweidio sicrwydd ar yr eiddo a chytundeb tenantiaeth y tenantiaid.
1.8	Defnyddio'r Ystafell i breswylio a pheidio â rhedeg busnes oddi yno.
1.9	Peidio gwahodd ymwelwyr i'r eiddo heb ganiatâd y tenant. Ni fydd y Lletywr / Is-denant yn gosod na rhannu unrhyw ystafelloedd yn yr eiddo na chymryd unrhyw Letywr / Is-denant na westai sy'n talu i'r eiddo heb ganiatâd y tenant.
1.10	Gadael yr ystafell mewn cyflwr da ar ddiwedd y cyfnod.
1.11	Dim ond defnyddio'r lle storio sydd wedi ei ddarparu ar eu cyfer yn y gegin ac i barchu bwyd mae'r tenant wedi ei brynu a dim 'benthyg' eitemau heb ganiatâd y Tenant.
1.12	Rhoi mynediad i'r Tenant i'r Ystafell, yn ddarostyngedig i rybudd ymlaen llaw, fel y gall edrych ar gyflwr yr ystafell a'r dodrefn a gwneud unrhyw atgyweiriadau.
Goblygiadau'r Tenant	
2.1	Rhoi'r hawl personol i'r Lletywr / Is-denant byw yn yr eiddo a defnyddio'r ystafelloedd sydd i'w rhannu gyda'r Tenant / teulu'r Tenant (dileu fel bo'n briodol).
2.2	Cadw'r blaen dal sydd wedi ei dalu gan y Lletywr / Is-denant am hyd y cytundeb ac ad-dalu'r blaen dal i'r Lletywr / Is-denant ar ddiwedd y cyfnod, llai unrhyw ostyngiadau cymwys.
2.3	Rhoi lle storio bwyd a diod i'r Lletywr / Is-denant yn y gegin a pharchu bwydydd y Lletywr / Is-denant a dim 'benthyg' eitemau heb ganiatâd y a dim 'benthyg' eitemau heb ganiatâd y Tenant.
2.4	Talu pob treth (Treth Cyngor) a biliau am wasanaethau (trydan, dŵr a nwy [os oes yna gyflenwad nwy yn yr eiddo] a sicrhau bod yn wres digonol yn yr eiddo a bod yn drydan a dŵr oer a phoeth.
Y Blaendal:	

3.1	Mi fydd y Tenant yn cadw'r Blaendal am hyd y cytundeb a'i ad-dalu i'r Lletywr / Is-denant ar ddiwedd y Cyfnod llai unrhyw ostyngiadau o gostau sydd wedi disgyn ar y Tenant oherwydd atgyweirio unrhyw ddifrod wedi ei achosi gan y Lletywr / Is-denant i'r Ystafell neu'r Ystafelloedd sydd i'w rhannu ac i dalu am unrhyw golled gan y Tenant lle nad yw'r Lletywr / Is-denant wedi talu eu rhent. Nid os yna unrhyw log yn daladwy ar y Blaendal.
3.2	Ar unrhyw adeg yn ystod y Cyfnod gall y Tenant ddefnyddio unrhyw ran o'r Blaendal ar gyfer unrhyw gostau rhesymol sydd wedi eu creu oherwydd bod y Lletywr / Is-denant wedi torri ei oblygiadau. Gellir gofyn ar y Lletywr / Is-denant i wneud taliadau ychwanegol ar gyfer unrhyw golled neu gost sydd wedi ei greu ar gyfer y tenant oherwydd ymddygiad y Lletywr / Is-denant .
3.3	Os bydd yr Eiddo neu'r Ystafell yn dod yn annrhigiadwy yn ystod Cyfnod mi fydd y Tenant yn ad-dalu rhan o'r taliad sydd wedi ei wneud gan y Lletywr / Is-denant o dan y cytundeb, heblaw mai rhywbeth y mae'r Lletywr / Is-denant sydd wedi achosi i'r Eiddo neu Ystafell fod yn annrhigiadwy.

Ni fydd y Lletywr / Is-denant yn cael defnydd neilltuedig o'r Eiddo.

Os bydd y Tenant yn gadael yr eiddo neu'n rhoi rhybudd eu bod yn bwriadu gadael yr eiddo, mi fydd y Cytundeb hwn yn dod i ben yn syth a bydd yr eiddo yn cael ei ddychwelyd i (Cartrefi Cymunedol Gwynedd).

Llofnod y Tenant:	
Llofnod Lletywr / Is-denant:	
Enw a llofnod tyst:	**Enw:** **Llofnod:**
Dyddiad:	